OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 3355

# Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant sy'n cael eu Haddysg drwy Ddarpariaeth Amgen) (Cymru) 2009

**Adroddiad i rieni**

**9.**—(1) Rhaid i'r athro neu'r athrawes sydd â gofal dros uned cyfeirio disgyblion ac i berchennog ysgol annibynnol drefnu bod adroddiad ysgrifenedig sy'n cynnwys yr wybodaeth am unigolion a bennir yn Atodlen 2 ar gael bob blwyddyn ysgol i riant pob plentyn o oedran ysgol gorfodol y mae'n darparu darpariaeth a ariennir iddo.

(2) Mae rhiant pob plentyn o oedran ysgol gorfodol, y mae'r athro neu'r athrawes sydd â gofal dros uned cyfeirio disgyblion neu berchennog ysgol annibynnol yn darparu darpariaeth a ariennir iddo, yn berson rhagnodedig at ddibenion adran 537A(2)(b) o Ddeddf 1996.

(3) Nid oes dim yn y rheoliad hwn sy'n atal yr wybodaeth am unigolion a bennir yn Atodlen 2 rhag cael ei chynnwys mewn mwy nag un adroddiad ar yr amod, yn ddarostyngedig i baragraff (5), bod yn rhaid i ddarparwr y ddarpariaeth a ariennir anfon bob blwyddyn ysgol yr wybodaeth honno drwy'r post neu fel arall cyn diwedd tymor yr haf.

(4) Rhaid i'r cyfnod y mae adroddiad sy'n cynnwys yr wybodaeth am unigolion yn Atodlen 2 yn ymwneud ag ef ddechrau ym mhob achos ar ba ddyddiad bynnag yw'r diweddaraf o'r canlynol—

(a) y dyddiad y dechreuodd y person sy'n darparu'r ddarpariaeth a ariennir ddarparu addysg o'r fath i'r plentyn; neu

(b) diwedd y cyfnod yr oedd yr adroddiad diwethaf ar y materion hynny a wnaed yn unol â'r Rheoliadau hyn yn ymwneud ag ef.

(5) Pan na fo unrhyw un neu rai o'r manylion sy'n angenrheidiol i ddarparu'r wybodaeth a bennir ym mharagraffau 6, 7 neu 8 o Atodlen 2 yn dod i law darparwr y ddarpariaeth a ariennir tan ar ôl diwedd tymor yr haf, rhaid iddo drefnu bod yr wybodaeth honno ar gael cyn gynted ag y bo'n ymarferol a sut bynnag erbyn y 30 Medi canlynol fan bellaf.